# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

Dyddiad: Dydd Mawrth, 22 Tachwedd 2022

Amser: 09.00 - 09.51

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Lesley Griffiths AS<br>Darren Millar AS<br>Siân Gwenllian AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Aled ap Neill (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | Jane Dodds AS<br>David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru<br>Matthew Richards, Pennaeth y Gwasanaeth Cyfrifol |

| | |
|---|---|
| | Anna Daniel, Pennaeth Trawsnewid Strategol<br>Richard Thomas, Trawsnewid Strategol<br>Tom Jackson, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

Nid oes dim newidiadau i fusnes y llywodraeth yr wythnos hon. Dywedodd y Trefnydd wrth y pwyllgor mai hi fydd yn ateb cwestiynau heddiw ar ran y Prif Weinidog.

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel eitem 5.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 5.40pm.

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.55pm.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newidiadau a ganlyn:

**Dydd Mawrth 29 Tachwedd**

- Cynnig i amrywio’r drefn o ystyried gwelliannau Cyfnod 3 i Fil Diogelu'r Amgylchedd (Plastigau Untro) (Cymru) (5 munud)

**Dydd Mawrth 6 Rhagfyr**

- Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Newid Hinsawdd – Datganiad Terfynol ar gyfer Cyllideb Garbon 1 (30 munud)

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i'r ychwanegiadau canlynol i'r amserlen:

**Dydd Mercher 14 Rhagfyr 2022**

- Datganiad gan Peter Fox: Cyflwyno Bil Arfaethedig Aelod – Bil Bwyd (Cymru) (60 munud)
- Dadl ar adroddiad Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: Trais ar sail rhywedd: Anghenion menywod mudol (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Diweddariad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Trafododd y Pwyllgor Busnes y wybodaeth ddiweddaraf gan y Trefnydd a chytunodd i:

- gyfeirio'r Memorandwm atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) a osodwyd ar 17 Tachwedd at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 13 Ionawr 2023; ac
- ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar Femorandwm ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio i 16 Chwefror 2023, gan ragweld y bydd Memorandwm diwygiedig yn cael ei osod.

### 4.2 Papur i’w nodi – llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at y Prif Weinidog ynghylch gwaith craffu ar oblygiadau ariannol Biliau

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr.

## 5 Diwygio'r Senedd

### 5.1 Ystyried Argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd – diweddariad ar benderfyniadau

Dychwelodd y Pwyllgor Busnes at ystyried dau argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio’r Senedd:

**1. Maint Llywodraeth Cymru mewn Senedd fwy**

Cytunodd y Pwyllgor i ohirio trafodaeth bellach ar y mater hwn tan y cyfarfod dilynol.

**2. Nifer y Dirprwy Lywyddion mewn Senedd fwy**

Ymhellach i'r casgliad a gytunwyd yn y cyfarfod blaenorol – y dylai deddfwriaeth ar Ddiwygio'r Senedd ddiwygio'r darpariaethau statudol presennol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 i ddarparu ar gyfer terfyn diwygiedig o ddau Ddirprwy Lywydd – cytunodd

y Pwyllgor Busnes y dylai'r ddeddfwriaeth ei gwneud yn ofynnol y dylai Aelodau a etholir i rolau'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd gynrychioli o leiaf ddau grŵp plaid. Daeth y Pwyllgor hefyd i'r casgliad y dylai'r ddeddfwriaeth ddatgan, pan fydd y Senedd yn ethol dau Ddirprwy Lywydd y dylai'r deiliad swydd hyn gynrychioli tair plaid wahanol, lle y bo'n bosibl.

Cytunodd mwyafrif y Pwyllgor Busnes y dylai ddod i'r casgliad y dylai'r ddeddfwriaeth ddiwygio'r teitlau 'Presiding Officer' a 'Deputy Presiding Officer' i 'Speaker' a 'Llywydd', a 'Deputy Speaker' a 'Dirprwy Lywydd', yn amodol ar Lywodraeth Cymru yn ystyried a oes gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol i wneud hyn. Nododd Siân Gwenllian a Jane Dodds eu bod yn ffafrio defnyddio 'Llywydd' a 'Ddirprwy Lywydd' yn unig yn y ddeddfwriaeth.

**5.2 Datblygiad tybiaethau cyffredin**

Ystyriodd y Pwyllgor Busnes bapur ymgynghori ynghylch nifer o ragdybiaethau a fydd yn sail i'r wybodaeth sydd i'w darparu gan Gomisiwn y Senedd i lywio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Diwygio'r Senedd. Cytunodd y Pwyllgor y dylid rhoi ystyriaeth bellach i ragdybiaethau ynghylch nifer bosibl y pwyllgorau mewn Senedd fwy. Cytunwyd hefyd y dylai'r rhagdybiaethau a'r wybodaeth a gaiff eu cyflwyno ynghylch gweithgareddau Seneddol amlinellu'r ystod o weithgareddau a wneir gan y Senedd. Gofynnwyd am lunio papur arall i'w drafod mewn cyfarfod yn y dyfodol.